

## Mentoriaid Academaidd Lefel 3 - x 3 swydd

**Cyfeirnod y Swydd:** YYGC00227W1RDE  
**Lleoliad:** Ysgol Glan Clwyd  
**Cyflog:** Gradd 5 (£15,870 - £17,522)  
**Oriau:** 32.5 awr yr wythnos (Tymor Ysgol yn unig + 5 HMS)  
**Math o gytundeb:** Swydd Tymor Penodol 01/09/2020 – 31/08/2021  
Swydd Allanol

Mae Ysgol Glan Clwyd yn edrych am hyd at dri pherson i fod yn fentoriaid academaidd yn yr ysgol gan weithio'n uniongyrchol gyda myfyrwyr Blynyddoedd 11, 12 a 13 er mwyn hyrwyddo eu dysgu a'u cynorthwyo i baratoi at lwyddiant yn arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch haf 2021. O ganlyniad i gyfnod clo coronafeirws mae'r ysgol yn awyddus i gynnis pob cymorth i'n myfyrwyr i sicrhau eu bod yn llwyddo y flwyddyn nesaf – ac fe welwn y penodiadau hyn fel rhan allweddol yn y strategaeth honno.

Os ydych:

- yn chwilio am gyflogaeth a her gyffrous am 12 mis
- wedi profi llwyddiant academaidd eich hun ac yn awyddus i gynorthwyo eraill i wneud yr un modd
- â'r gallu i wrando a chymell eraill i lwyddo, gan gyfathrebu'n effeithiol
- â'r meddylfryd i oresgyn heriau
- â gwybodaeth gyfredol am bwysau gwaith arholiadau a llwybr llwyddiant arholiadau allanol
- ag empathi gyda dysgwyr ifanc o bob gallu, ac yn meddu ar agwedd amyneddgar a chadarnhaol

**Yna hon ydy'r swydd i chi!**

Rydym yn chwilio am amrediad o sgiliau ac arbenigeddau fel fod y fîm mentoriaid academaidd gyda'i gilydd yn gallu cynorthwyo'r myfyrwyr ar draws yr ystod o bynciau.

Dyma gyfle cyffrous i berson egnïol gael profiad o weithio'n uniongyrchol gyda dysgwyr arholiadau allanol a gwneud hynny fel rhan o dîm teuluol, gweithgar a chyffrous Ysgol Glan Clwyd – a'r cwbl wrth gwrs o fewn awyrgylch gartrefol Gymraeg yr ysgol.

Dewch ac ymunwch â thîm Ysgol Glan Clwyd.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Os hoffech fwy o fanylion am y swydd uchod, gellir cysylltu a'r ysgol drwy e bostio [swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk](mailto:swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk).

**Dyddiad Cau: Dydd Sul 16/08/20**

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych [www.sirdinbych.gov.uk/](http://www.sirdinbych.gov.uk/). Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost [swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk](mailto:swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk)

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

***This Advert is for Teaching Assistants at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.***

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.